OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 523

## Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

## RHAN 2

## CYMHWYSTRA

**Cyfnod cymhwystra**

**5.**—(1) Mae myfyriwr yn cadw ei statws fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig hyd nes bod y statws yn terfynu yn unol â'r rheoliad hwn neu reoliad 3.

(2) Y cyfnod y mae myfyriwr cymwys yn cadw'r statws y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw'r "cyfnod cymhwystra".

(3) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau a ganlyn a rheoliad 3, mae'r cyfnod cymhwystra yn terfynu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs dynodedig ynddi.

(4) Mae'r cyfnod cymhwystra yn terfynu—

(a) pan fydd y myfyriwr cymwys ("A") yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig o dan amgylchiadau pan na fo Gweinidogion Cymru yn gorfod, o dan reoliad 6, drosglwyddo statws A fel myfyriwr cymwys i gwrs arall; neu

(b) pan fydd A yn cefnu ar ei gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel ohono.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu'r cyfnod cymhwystra pan fo A wedi dangos drwy ei ymddygiad nad yw'n addas i gael benthyciad at radd feistr ôl-raddedig.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod myfyriwr cymwys wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan y Rheoliadau hyn neu ei fod wedi darparu gwybodaeth sy'n anghywir o ran manylyn perthnasol, caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a ganlyn y maent yn ystyried eu bod yn briodol o dan yr amgylchiadau—

(a) terfynu'r cyfnod cymhwystra;

(b) penderfynu nad yw'r myfyriwr yn gymwys mwyach i gael benthyciad at radd feistr ôl-raddedig;

(c) trin unrhyw fenthyciad at radd feistr ôl-raddedig a delir i'r myfyriwr fel gordaliad y caniateir ei adennill o dan reoliad 17.

(7) Pan fo'r cyfnod cymhwystra yn terfynu cyn diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs dynodedig ynddi, caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, adnewyddu'r cyfnod cymhwystra am unrhyw gyfnod y maent yn penderfynu arno.